

PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 12 HYDREF 2023

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	J.K. Howell
A.C. Jones	M.J.A. Lewis	B.D.J. Phillips	E. Skinner
G.B. Thomas	M. Thomas		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies	M. Donoghue	N. Evans	A. Leyshon
D. Owen	R. Sparks	D.E. Williams	

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd T. Higgins mewn perthynas â chais cynllunio PL/04864 (yn rhithwir)
Y Cynghorydd N. Lewis mewn perthynas â chais cynllunio PL/05822 (yn y Siambr)

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 1.30 yp

(NODWCH:

- Cafodd y Pwyllgor egwyl am 12:05pm, cyn ailgynnull am 12.20pm.
- Am 13:05pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
M. Thomas	3 - Cais cynllunio PL/05130 - Dymchwel y breswylfa bresennol a chodi 4 preswylfa ar wahân, 22 Ar y Bryn, Pen-bre, Llanelli, SA16 0AX	Mae wedi gwrthwynebu'r cais yn ysgrifenedig.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar wiriadau halogiad tir, yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/04864	<p>Cais am ganiatâd cynllunio llawn i adeiladu 10 preswylfa ar dir y tu cefn i Y Garreg Lwyd, Heol Ebenezer, Llanedi, SA4 0ZL</p> <p>Cafwyd sylw a wrthwynebai'r cais ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Pryderon y byddai'r datblygiad yn arwain at lifogydd mewn eiddo cyfagos.• Roedd y tir yn arfer bod yn safle tirlenwi ac mae'n rhaid cael gwared ag unrhyw halogiad pridd.• Yr effaith bosibl ar breifatrwydd trigolion cyfagos.• Yr angen am gyfraniadau Adran 106 er budd y pentref. <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.</p>
-----------------	---

3.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/05056	<p>Adeiladu llwybr rhannu defnydd 3.0m o led rhwng Cae'r-bryn a Phen-y-groes fel rhan o Gam 3 y Llwybr Rhannu Defnydd rhwng Pen-y-groes a Chae'r-bryn, Sir Gaerfyrddin, SA18 3EQ</p>
-----------------	---

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PL05130	<p>Dymchwel y breswylfa bresennol a chodi 4 preswylfa, 22 Ar y Bryn, Pen-bre, Llanelli, SA16 0AX</p> <p>[Nodwch: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd M. Thomas Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]</p>
PL/05546	<p>Datblygiad Preswyl (9 byngalo) ar dir gyferbyn â'r Plough and Harrow, y Betws, Rhydaman, SA18 2HE</p>
PL/05766	<p>Estyniad 5m i dŵr y gosodiad presennol. Adleoli 3 antena a 2 ddysgl (fel y nodir yn E/38278). Gosod 6 antena newydd a 5 cabinet newydd ar y ddaear. Gosod unedau radio o bell, blychau <i>breakout</i>, mwyaduron pen mast, nodau GPS a chyfarpar a gwaith ategol cysylltiedig ar dir yng Nghoedwig Nant y Bai, Rhandir-mwyn, Llanymddyfri, SA20 0PA</p>
PL/06083	<p>Cais am fyngalo ar wahân, 60 Heol y Meinciau, Pont-iets, Llanelli, SA15 5RT</p>

3.3 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd:

PL/05822	<p>Cais am ddatblygiad preswyl o 16 uned, ymestyn ffordd yr ystad a gwaith cysylltiedig, tir a arferai fod yn rhan o Fferm Cefn a ger Dan-y-Dderwen, Rhydargaeau, Caerfyrddin, SA32 7DQ</p> <p>Cafwyd sylw a oedd yn cefnogi'r cais ac yn ailbwysleisio'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal. • Byddai'r cyfraniadau Adran 106 o fudd i'r pentref a byddai'r ddarpariaeth arfaethedig o ran mannau agored / lle chwarae mwy o fudd i deuluoedd lleol. <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd.</p>
----------	--

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 2 Hydref, 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14EG MEDI, 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023, gan eu bod yn gywir.

CHAIR

DATE

[SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllodiad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf